Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu

Dyddiad	12 Rhagfyr 2018	**Cadeirydd**	Lee Jones (Pennaeth Staff y Comisiynydd)	**Man Cyfarfod**	Pencadlys yr Heddlu, Pen-y-bont ar Ogwr
Y rhai a fu'n bresennol	**Tîm y Comisiynydd:** Lee Jones (LJ), Hannah Jenkins-Jones (HJJ), Jacqueline Trow (JT), Sarah Mahon (SM) Heddlu De Cymru: Prif Gwnstabl Cynorthwyol Jenny Gilmer (JG), Prif Arolygydd John Wainwright (JW), Prif Uwcharolygydd Andy Valentine (AV), Amy Thomas (AT) **Aelodau'r grŵp:** Alex Drummond (AD), Claire Cunliffe (CC), Daisy Cole (DC), Jasmine Jones (JJ), Miranda Evans (ME), Steve Warner (SW), Tom Edwards (TE), Tony Hendrickson (TH), Rebecca Frohwein (RF)				

Crynodeb o'r Trafodaethau

1. Croeso a Chyflwyniadau

Agorodd LJ y cyfarfod drwy ddiolch i'r aelodau am ddod a nododd ymddiheuriadau oddi wrth y rhai nad oeddent yn gallu bod yn bresennol.

Gan fod nifer o aelodau newydd yn y cyfarfod, hysbysodd LJ y grŵp ei fod yn fforwm allweddol yn strwythur llywodraethu'r Comisiynydd a oedd yn chwarae rôl allweddol o ran helpu'r Comsiynydd i ddwyn yr heddlu i gyfrif. Cafodd aelodau'r grŵp eu hannog i nodi pynciau i'w trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

2. Cofnodion a Chamau Gweithredu

Ni chodwyd unrhyw faterion na newidiadau o ran cofnodion y cyfarfod blaenorol. Trafodwyd camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol a rhoddwyd y diweddariadau canlynol:

1	Y diweddariad ar dechnoleg adnabod wynebau awtomatig mewn perthynas â'r sesiwn gymunedol a drefnwyd gan Heddlu De Cymru.	Hannah Jenkins-Jones	**Wedi'i gwblhau** – Hysbysodd HJJ y grŵp, yn dilyn cyflwyniad ar dechnoleg adnabod wynebau awtomatig gan yr Arolygydd Scott Lloyd mewn cyfarfod blaenorol, fod Scott Lloyd am wahodd aelodau'r grŵp i sesiwn ar y dechnoleg. Nod y sesiwn oedd helpu'r aelodau i ddeall ymhellach sut roedd y dechnoleg yn gweithio yn ogystal â rhoi cyfle i Heddlu De Cymru ddod i ddeall sut y gallai'r dechnoleg effeithio ar grwpiau cymunedol penodol. Roedd Scott Lloyd hefyd am estyn gwahoddiad i gydweithwyr a sefydliadau eraill. Hysbysodd HJJ y grŵp y câi llythyr o wahoddiad yn cadarnhau dyddiad ac amser y sesiwn ei anfon at y grŵp yn y flwyddyn newydd.

2	Rhannu manylion cyswllt Helen Bennet ag aelodau'r grŵp.	Sarah Mahon	**Wedi'i gwblhau** – Dosbarthwyd manylion a byddai diweddariad ar y maes gwaith hwn yn cael ei drefnu ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.
3	Trefnu cyflwyniad ar linellau cyffuriau mewn cyfarfod yn y dyfodol.	Sarah Mahon	**Wedi'i gwblhau** – Wedi'i gynnwys ar agenda cyfarfod 12/12/18.
4	Cysylltu ag aelodau presennol y grŵp ac ystyried aelodau presennol.	Hannah Jenkins-Jones	**Wedi'i gwblhau** – Anfonwyd llythyrau a gwahoddwyd aelodau ychwanegol.

3. Llinellau Cyffuriau

Hysbysodd y Prif Uwcharolygydd Danny Richards y grŵp bod llinellau cyffuriau wedi bod yn her plismona ers yr 20 mlynedd diwethaf, ond yn ystod y 5-6 blynedd diwethaf, eu bod wedi bod ar raddfa na welwyd ei thebyg erioed o'r blaen. Roedd bellach yn mynd yn broblem genedlaethol a oedd yn achosi cryn fygythiad i gymunedau ac yn camfanteisio ar yr aelodau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Roedd llinellau cyffuriau yn cynnwys gangiau o ardaloedd trefol mawr a oedd yn teithio i Dde Cymru yn rheolaidd i ddosbarthu cyffuriau a chasglu arian. Roedd gangiau yn defnyddio adeiladau lleol, a oedd fel arfer yn eiddo i berson a oedd yn agored i niwed fel canolbwynt eu gweithgarwch. Roedd y rhain yn aml yn cael eu cymryd drwy rym neu orfodaeth ac roedd yr arfer hon yn cael ei galw'n 'cogio'. Roedd gangiau hefyd yn herio grwpiau a oedd yn bodoli eisoes neu fentrau llinellau cyffuriau eraill am diriogaeth, a oedd wedi arwain at fwy o drais. Cyfeiriodd DR at astudiaeth achos ddiweddar a oedd wedi dangos sut roedd llinellau cyffuriau wedi cyflwyno elfen anwadal i blismona.

Er mwyn dangos pa mor eang oedd gweithgarwch llinellau cyffuriau, rhoddodd DR drosolwg o sefyllfa'r heddlu drwy gyflwyno'r ardaloedd daearyddol lle roedd gweithgarwch llinellau cyffuriau yn fwyaf cyffredin. O safbwynt Heddlu De Cymru, roedd y mannau amlwg yn cynnwys Dinas Abertawe, Bae Caerdydd a Chanol Dinas Caerdydd. Roedd gangiau hefyd wedi dechrau ymsefydlu yn y Barri a Phen-y-bont ar Ogwr – roedd 50% o'r achosion hyn yn cynnwys trais â chyllell. Cyfeiriodd DR at Ymgyrch Sceptre, sef menter gan y Swyddfa Gartref a sefydlwyd i fynd i'r afael â throseddau sy'n ymwneud â chyllyll. Yn 2018, sefydlodd Heddlu De Cymru dasglu ymgyrch Sceptre gyda'r nod o fynd i'r afael â throseddau sy'n ymwneud â chyllyll a throseddau cysylltiedig. Yn 2018, roedd dau o bobl wedi cael eu lladd mewn achosion a oedd wedi bod yn gysylltiedig â gangiau stryd trefol a oedd yn rhan o linellau cyffuriau. Gwelwyd lefelau cynyddol o drais yn y rhannau o ardal yr heddlu lle roedd llinellau cyffuriau wedi ymsefydlu.

Dywedodd DR fod gweithgarwch llinellau cyffuriau yn dibynnu ar gamfanteisio ar blant ac oedolion a oedd yn agored i niwed. Roedd cydberthnasau yn cael eu meithrin ar sail bygwth a chamfanteisio ar bobl a oedd yn agored i niwed ac yn cael eu rheoli drwy ofn a thrais. Roedd 'hierarchaeth' llinellau cyffuriau yn cynnwys delwyr - gorfodwyr a oedd yn rhedeg y fenter, negeswyr - delwyr lleol, a dioddefwyr 'cogio' - hwyluswyr lleol a oedd yn cael eu rheoli drwy ofn a thrais.

Er mwyn mynd i'r afael â lefelau eithriadol o weithgarwch llinellau cyffuriau, roedd Heddlu De Cymru yn dibynnu ar ddull amlasiantaethol i ymdrin â llinellau cyffuriau a'u nodi. Er mwyn cynorthwyo gyda hyn, roedd Heddlu De Cymru yn gweithio gydag asiantaethau partner i godi ymwybyddiaeth o weithgareddau amheus sy'n gysylltiedig â llinellau cyffuriau.

Diolchodd LJ i DR am ei gyfraniad a gwahodd y cyfarfod i ofyn cwestiynau. Dywedodd SW wrth y grŵp fod hon yn eitem ddiddorol a chyfredol i'w thrafod am fod trafodaethau mewnol yn mynd rhagddynt yn ei sefydliad yntau am un o'i gleientiaid yr amheuwyd ei fod yn ddioddefwr cogio o bosibl.

Gofynnodd SW sut y gelld mynd i'r afael â hyn neu roi gwybod amdano fel cudd-wybodaeth. Cynghorodd DR y dylid cysylltu ag Uned Diogelu'r Cyhoedd Abertawe i'w hysbysu am unrhyw bryderon neu amheuon a oedd gan y sefydliad. Gan fod 'cogio' yn rhan o gam paratoi llinellau cyffuriau a oedd yn rhoi 'gwobr' am gyflenwi, roedd yn bwysig bod yn ymwybodol bob amser o ddibyniaethau cleientiaid ac a oedd yn ymddangos bod eitemau/cyffuriau neu arian yn eu meddiant nad oeddent ar gael iddynt gynt.

Roedd AD o'r farn bod y cyflwyniad a roddwyd gan DR yn rhyngwyneb pwysig i roi hyder a gwybodaeth i'r staff mewn gwasanaethau cymorth i roi cudd-wybodaeth i'r heddlu. Dywedodd DR wrth y grŵp bod asiantaethau yn y trydydd sector yn ogystal ag asiantaethau partner wedi cael mewnbwn gannoedd o weithiau yn ystod y 12-18 mis diwethaf. Roedd pecynnau cyflwyno ar gael gan Heddlu De Cymru pe na bai sefydliadau wedi cael briffiad.

Trafododd y grŵp ethnigrwydd yr unigolion a gyflwynwyd yn y cyflwyniad. Yn benodol, ymddangosai fod y mwyafrif o'r unigolion a oedd yn rhedeg llinellau cyffuriau yn dod o gefndiroedd BME a bod dioddefwyr 'cogio' yn wyn. Os nad oedd unrhyw dystiolaeth i ategu'r faith mai pobl BME oedd y mwyafrif o'r rhai a oedd yn rhedeg llinellau cyffuriau, yna pwysleisiodd y grŵp fod angen i'r cyflwyniad adlewyrchu delweddau o bob math o unigolyn a oedd yn gysylltiedig â llinellau cyffuriau. Byddai hyn yn helpu o ran y delweddau ehangach o'r rhai sy'n gysylltiedig â gweithgarwch llinellau cyffuriau. Trafododd y grŵp hefyd sut y gallai'r delweddau yn y cyflwyniad fwydo tuedd anymwybodol yn isymwybodol, drwy roi'r argraff mai pobl dduon oedd y rhai a oedd yn cyflawni troseddau yn bennaf ac mai pobl wyn oedd y dioddefwyr. Gofynnodd HJJ a oedd dadansoddiad o ethnigrwydd cyflawnwyr/diodefwyr wedi'i wneud neu a oedd modd paratoi hwn erbyn y cyfarfod nesaf. Cytunodd DR y byddai'n ymchwilio i hyn. Diolchodd JG i bawb am eu sylwadau a dywedodd wrth y grŵp bod yr heddlu yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau nad oedd swyddogion yn llunio rhagdybiaethau a'u bod yn edrych y tu hwnt i'r hyn a oedd o'u blaenau. Croesawyd y pwyntiau a godwyd a byddai'r heddlu'n parhau i weithio ar hyn gyda'r swyddogion.

Cytunodd y grŵp y byddai'n ddefnyddiol deall demograffeg y rhai a oedd yn rhan o linellau cyffuriau.
CAM GWEITHREDU – DR i baratoi adroddiad ar ddemograffeg ethnig y rhai sy'n rhan o Linellau Cyffuriau yn Ne Cymru er mwyn deall y sefyllfa'n well.

4. Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd

Dywedodd HJJ wrth y grŵp bod Cynllun Cydraddoldeb ar y cyd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar fin cael ei ddiweddaru. Nod y cynllun oedd sicrhau bod yr amcanion cydraddoldeb allweddol yn cael eu cyflawni o fewn cyfnod penodol a bod yr heddlu'n rhoi'r ffocws angenrheidiol ar gydraddoldeb. Roedd yr amcanion cydraddoldeb yn y Cynllun Cydraddoldeb drafft wedi cael eu dewis fel y meysydd allweddol roedd angen i ni weithredu arnynt er mwyn cyflawni ein nodau o dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol. Roedd y rhain yn cynnwys y cynigion canlynol:

Niwroamrywiaeth – Gweithio i wella safon y gwasanaeth a roddir i bobl sydd â chyflyrau niwroamrywiol, gan gynnwys Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth, gan sicrhau y caiff ymwybyddiaeth fewnol o anghenion unigolion ei gwella.
Cymunedau Sipsiwn, Teithwyr a Roma – Ennyn ymddiriedaeth a hyder cymunedau Sipsiwn, Teithwyr a Roma yn yr heddlu, a hyrwyddo cydberthnasau cadarnhaol rhwng cymunedau Sipsiwn, Teithwyr a Roma a'r heddlu.
Pobl Hŷn – Gweithio i atal pobl hŷn rhag mynd yn ddiodefwyr troseddau, er mwyn iddynt deimlo'n fwy diogel a sicrhau bod y gwasanaeth a gânt yn hygyrch ac yn briodol ar gyfer eu hanghenion penodol.

Troseddau Casineb:Anableddau dysgu – Gweithio i sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn deall beth yw troseddau casineb ac yn ddigon hyderus i roi gwybod i'r heddlu am achosion, a chynyddu nifer yr adroddiadau o droseddau casineb gan y rhai sydd ag anableddau dysgu.
Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc – Gwella'r ffordd yr ymgysylltir â phlant a phobl ifanc; gan ganolbwyntio ar y ffordd y maent yn cael gafael ar ein gwasanaethau, gan gynnwys y weithdrefn gwyno.
Cydraddoldeb yn y gweithle – Gwella cydraddoldeb a thegwch yn ein gweithlu drwy annog aelodau o'n gweithlu i roi gwybod am achosion o gam-drin domestig, troseddau casindeb, ac aflonyddu rhywiol os ydynt yn eu profi fel dioddefwyr.
Gweithlu cynrychioliadol – Gweithio i gynyddu amrywiaeth gweithlu Heddlu De Cymru, gyda ffocws penodol ar hil a rhyw, er mwyn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethwn yn well.

Trafododd y grŵp hygyrchedd a pham nad oedd yn amcan mwyach yn y cynllun newydd. Er mwyn deall sut roedd yr heddlu wedi cyflawni'r amcan hwn a'r ffordd roedd wedi'i brif ffrydio, trafododd y grŵp yr angen i ddeall beth yn union a oedd wedi'i gyflawni ers y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd blaenorol. Byddai hyn yn helpu i ddangos y rhesymeg dros beidio â chynnwys amcan ynglŷn â hygyrchedd mwyach. Cytunodd HJJ y byddai'n ddefnyddiol cofnodi'r hyn a gyflawnwyd o dan y Cynllun Cydraddoldeb blaenorol er mwyn cadarnhau lefelau o lwyddiant.

Trafododd y grŵp yr amcan ynglŷn â phobl hŷn hefyd a'r teimlad oedd y byddai'n well pe bai'r agweddau ar yr amcan a oedd yn canolbwyntio ar ganfyddiadau am ddiogelwch yn cael eu dileu, gan y byddai hyn bob amser yn anodd i'w mesur. Yn lle hynny, cytunwyd y dylid canolbwyntio ar ansawdd y gwasanaeth i bobl hŷn fel y prif fater.

CAM GWEITHREDU – JW i baratoi adroddiad terfynol ar y cyflawniadau o dan y Cynllun Cydraddoldeb blaenorol a'i gyflwyno yn un o gyfarfodydd y grŵp yn y dyfodol.
CAM GWEITHREDU – HJJ i ddosbarthu'r Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd terfynol i aelodau'r grŵp00403

5. Adroddiad Asesu Strategol Heddlu De Cymru

Gan fod yr adroddiad yn cynnwys toreth o wybodaeth ansoddol a meintiol, gofynnodd LJ i'r aelodau fyfyrio ar yr adroddiad y tu allan i'r cyfarfod a chyflwyno unrhyw ymholiadau i dîm y Comisiynydd naill ai dros e-bost neu yn y cyfarfod nesaf.

Tabl Camau Gweithredu

Cam Gweithredu	Disgrifiad	Person Cyfrifol	Diweddariad ar y Cam Gweithredu
1	Dosbarthu llythyr o wahoddiad ar gyfer y sesiwn ar dechnoleg adnabod wynebau awtomatig	Hannah Jenkins-Jones	Wedi'i gwblhau – Cynhaliwyd y sesiwn ar 4 Chwefror 2019.
2	Paratoi adroddiad ar ddemograffeg ethnig y rhai sy'n rhan o Linellau Cyffuriau yn Ne Cymru	Danny Richards	Adroddiad wedi'i baratoi – i'w drafod yn y cyfarfod ar 13/3/19
3	Paratoi adroddiad terfynol ar y cyflawniadau o dan y Cynllun Cydraddoldeb blaenorol.	John Wainwright	Parhaus
4	Dosbarthu'r Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd terfynol	Hannah Jenkins-Jones	I'w ddosbarthu dros e-bost ar ôl y cyfarfod ar 13 Mawrth.